Delio â bwciadau

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â delio â phob math o ymholiadau bwcio, gan gynnwys diwygiadau a chanslo. Mae ar gyfer pobl sy'n gweithio ar y dderbynfa neu mewn timau bwciadau. Gall bwciadau gyrraedd y sefydliad trwy amrywiol ddulliau, gan gynnwys ar-lein, trwy'r e-bost, y cyfryngau cymdeithasol, drwy'r post, dros y ffôn ac wyneb yn wyneb.

Pan fyddwch chi wedi cwblhau'r safon hon, byddwch chi'n gallu dangos eich dealltwriaeth o'r canlynol, a'ch gallu i:

• Ddelio â bwciadau

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. Delio ag ymholiadau bwcio gan ddilyn gweithdrefnau sefydliadol, yn ôl y math o ymholiad
2. Ymateb i'r ymholiad bwcio gyda gwybodaeth gywir
3. Manteisio ar y cyfle i werthu cynnyrch a gwasanaethau eraill o fewn yr ohebiaeth yn ôl at y cwsmer, lle bo'n bosibl ac yn briodol
4. Gwahodd eich cwsmeriaid i fwcio, lle bo'n bosibl, a derbyn a chofnodi eu manylion yn gywir
5. Caniatáu am anghenion a gofynion y cwsmer a dilyn gweithdrefnau sefydliadol yn unol â hynny
6. Delio ag unrhyw gadarnhad, canslo a diwygiadau yn unol â gweithdrefnau a gofynion sefydliadol
7. Casglu gwybodaeth gyfredol am brisiau, bargeinion a rheolau trydydd parti, lle bo hynny'n berthnasol
8. Nodi, gwirio a mynd ar drywydd bwciadau heb eu cadarnhau yn y system fwcio
9. Cynnal cofnodion o'r holl fwciadau yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. Pwysigrwydd delio â chwsmeriaid yn gwrtais ac yn gymwynasgar bob amser
2. Pam mae'n bwysig rhoi gwybodaeth lafar ac ysgrifenedig gywir i gwsmeriaid
3. Y mathau o broblemau a all ddigwydd gyda bwciadau, a sut i ddelio â'r rhain yn gywir
4. Gofynion cyfreithiol sylfaenol perthnasol yn gysylltiedig â nwyddau a gwasanaethau sydd ar werth wrth gael, cadarnhau, diwygio a chanslo ymholiadau bwcio
5. Gweithdrefnau a systemau bwcio eich sefydliad, gan gynnwys systemau trydydd parti
6. Pwysigrwydd uwch-werthu deallus a phriodol
7. Beth yw gorfwcio, sut i ddelio â hyn a pham mae'n digwydd
8. Pam mae'n bwysig cael a chofnodi manylion bwcio yn gywir
9. Pam mae'n bwysig manteisio ar y cyfle i werthu cynnyrch a gwasanaethau
10. Sut i ganslo a diwygio bwciadau
11. Polisïau a gweithdrefnau canslo eich sefydliad a systemau trydydd parti
12. Pam y gall fod angen cadarnhad a blaendal gan gwsmeriaid
13. Pam mae'n hanfodol mynd ar drywydd bwciadau heb eu cadarnhau

## Cwmpas/Ystod

**1. Cwsmeriaid**

13.1 â cheisiadau arferol

13.2 ag anghenion arbennig

**2. Ymholiadau**

2.1 wyneb yn wyneb

2.2 dros y ffôn

2.3 drwy'r e-bost

2.4 systemau bwcio ar-lein

2.5 gwasanaethau a chyfleusterau sydd ar gael

2.6 nodweddion a buddion gwasanaethau a chyfleusterau

2.7 prisiau

2.8 cynigion arbennig a hyrwyddiadau sydd ar gael

2.9 cyfryngau cymdeithasol

2.10 systemau bwcio trydydd parti

**3. Systemau bwcio**

3.1 systemau cyfrifiadurol

3.2 systemau â llaw

3.3 systemau ar-lein

**4. Diwygiadau i fwciadau a chanslo bwciadau**

4.1 newid bwciad

4.2 canslo bwciad

## Geirfa

**Cwsmer**
Unrhyw un sydd eisiau bwcio, diwygio bwciad neu ganslo bwciad

PPL2FOH3

Delio â bwciadau

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | People 1st |
| **Fersiwn rhif** | 3 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Maw 2022 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 28 Chwef 2027 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | People 1st |
| **RCU gwreiddiol** | PPL2FOH3 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Derbynnydd |
| **Cyfres/Set** | Lletygarwch – Cadw Tŷ a Derbynfa Blaen Tŷ |
| **Geiriau Allweddol** | delio, bwciadau |